Mae mwy na 1,500 o bobl wedi eu cael yn euog yng Nghymru gan yr RSPCA o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid ers 2009, gyda 67 o bobl wedi'u herlyn yn 2017 am 148 o droseddau, sef gostyngiad bychan yn nifer y diffynyddion ond cynnydd yn y rhychwant o euogfarnau o'i gymharu â 2016. Gan ddefnyddio'r Ddeddf Lles Anifeiliaid ar

Codau Ymarfer sy'n benodol i rywogaethau, yn 2017 rhoddodd tîm o 30 o arolygwyr sy'n gweithio yn benodol yng Nghymru fwy na 6,500 o hysbysiadau rhybuddio anstatudol yr RSPCA i helpu i wella'r ffordd y mae perchnogion yn gofalu am eu hanifeiliaid, yn ogystal ag achub a chasglu dros 8,000 o anifeiliaid. Ledled Cymru, parhau wnaeth y gwaith o ganfod cartrefi newydd i anifeiliaid a achubwyd o esgeulustod, a bu i ganolfannau anifeiliaid yr RSPCA ym Mryny-maen a Chasnewydd, ynghyd â changhennau'r RSPCA ledled Cymru, ailgartrefu bron i 2,140 o anifeiliaid.

Mae'r rhan fwyaf o waith casglu ein harolygwyr yn ymwneud ag anifeiliaid gwyllt yn sgil galwadau i linell greulondeb a chynghor 24 awr yr RSPCA. Yn 2017 lansiodd RSPCA Cymru ei gynlluniau Gwirfoddolwyr Anafedigion Bywyd Gwyllt a Gwirfoddolwyr Gyrwyr Bywyd Gwyllt, gan recriwtio aelodau o'r cyhoedd i fod yn ymatebwyr cyntaf i anifeiliaid sydd â'r angen mwyaf o help ac i sicrhau eu bod yn gallu derbyn y driniaeth fwyaf priodol, cyn gynted â phosib.

Unwaith eto mae ymroddiad a gwaith caled staff a gwirfoddolwyr RSPCA Cymru wedi'u harddangos yn helaeth ar y cyfryngau gyda nifer o straeon yn cyrraedd y penawdau. O gydweithio â'r RNLI, Sea-Lift Diving a nifer o rai eraill, o symud clogfeini tair tunnell i ryddhau morlo oedd yn sownd am ddeuddydd, neu ddelio â'r dinistr a achoswyd pan gafodd cannoedd o adar drycin Manaw eu chwythu i ffwrdd ac angen achub dros 220 o adar – mae'r rhain oll yn dangos yr ystod eang o alwadau y mae arolygwyr yr RSPCA yn ymateb iddynt ac ehangder y profiad ac adnoddau sydd eu hangen.

Roedd nifer o faterion lles anifeiliaid wedi dominyddu'r agenda gwleidyddol yn 2017, gan gynnwys rheoleiddio arddangosfeydd symudol o anifeiliaid, defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau a chydabod ymdeimladoldeb anifeiliaid yn y gyfraith. Yn dilyn ymgyrch RSPCA Cymru i gael Cofrestr Troseddwy'r Anifeiliaid yng Nghymru, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r RSPCA gadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar y mater ac adrodd yn ôl i'r Llywodraeth.

Mae gwaith caled a chefnogaeth enfawr ein cefnogwyr yng Nghymru wedi sicrhau bod llawer o faterion ar les anifeiliaid wedi dod i amlygrwydd yn 2017 ac edrychwn ymlaen at y cyfleoedd a ddaw yn 2018.

Daphne Harris
Cadeirydd, Cynghor yr RSPCA

Paul Baxter
Cadeirydd RSPCA Cymru ac
Ymddiriedolwr Cynghor yr RSPCA

¹ Daw'r ffigurau o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,103 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 10 a 13 Ionawr 2017. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn (wleidyddol) gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

² <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170119-national-survey-wales-2014-15-pet-welfare-cy.pdf>.

³ Daw'r ffigurau o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,065 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 7 a 12 Ebrill 2016. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn (wleidyddol) gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

Ar y rheng flaen dros anifeiliaid

Mae swyddogion RSPCA Cymru yn gweithio bob awr o'r dydd i amddiffyn anifeiliaid mewn angen – gan ymateb ar y rheng flaen i'r 50,000 o alwadau a dderbynnir yng Nghymru bob blwyddyn – ac, yn 2017, bu iddynt ymchwilio i 10,176 o gŵynion am les anifeiliaid.

Mae rôl ein swyddogion yn unigryw, yn anodd ac yn arbenigol gydag arolygwyr yr RSPCA, swyddogion lles anifeiliaid a swyddogion casglu anifeiliaid yn cydweithio i fod yn achubiaeth i anifeiliaid. Mae'r swyddogion wedi'u rhannu'n dri grŵp arolygiaeth – sef y Gogledd a'r Canolbarth, y De-ddwyrain a'r De-orllewin – gyda'u harbenigedd yn helpu anifeiliaid o gymunedau mwyaf adeiledig Cymru i ardaloedd mwyaf anghysbell y wlad. Mae wyth o Wirfoddolwyr Anafedigion Bywyd Gwyllt hefyd yn cefnogi gwaith swyddogion yr RSPCA.

Yn ystod y flwyddyn mae llawer o anifeiliaid wedi dibynnu ar gymorth a chefnogaeth swyddogion ymroddedig y rheng flaen. Cafodd cyfanswm o 8,220 o anifeiliaid eu hachub a'u casglu yn 2017, llawer ohonynt yn fywyd gwyllt – gydag adfer a rhyddhau anifeiliaid gwyllt yn elfen allweddol o faich gwaith yr arolygiaeth. Yn 2017, cynhaliodd yr RSPCA nifer eithriadol o uchel o ymgyrchoedd cymhleth i achub morloi, gan fod yn un o'r tymhorau achub morloi prysuraf erioed i'r elusen yn y De a'r De-orllewin. Roedd yr amodau yn sgil stormydd Ophelia a Brian wedi golygu bod nifer o forloi wedi mynd i drafferthion yn y rhanbarth, a'r rheiny angen cymorth brys gan yr RSPCA.

Gwelwyd pa mor amrywiol yw llwyth gwaith yr RSPCA unwaith eto yn 2017 yn sgil sawl ymchwiliad cymhleth a sefyllfa achub heriol. Yn wir, ni chaiff swyddog yr RSPCA ddau ddiwrnod sydd yr un fath – boed yn delio ag anifeiliaid anwes, anifeiliaid fferm neu rai gwyllt, mae staff y rheng flaen yn cyflawni rôl unigryw a hanfodol i sicrhau diogelwch a lles anifeiliaid.

Cafodd **8,220** o anifeiliaid eu casglu a'u hachub yn 2017.

Achub llu o adar drycin Manaw

Mae poblogaethau mawr o adar drycin Manaw (neu pâl Manaw) i'w cael yng ngorllewin y wlad ac, ar adegau penodol o'r flwyddyn, mae tywydd garw yn gallu achosi problemau iddynt. Caiff llawer o'r adar eu chwythu i'r lan ac er eu bod yn abl iawn wrth hedfan neu mewn dŵr, maent yn cael trafferthion ar dir sych. Achubodd RSPCA Cymru 220 o adar drycin Manaw mewn un wythnos ar ôl tywydd stormus. Pan laniodd llwythi ohonynt ar yr un pryd, achubwyd 144 o'r adar môr o draeth Niwrgwl, a 50 arall o draeth Druidstone Sir Benfro.



Achub cath oedd yn sownd rhwng dwy wal

Mae cathod chwilfrydig yn gallu cael eu hunain i bob math o drafferthion, ac achubwyd un ohonynt yng Nghastell-nedd ar ôl mynd yn sownd rhwng wal a ffens bren – mewn bwch 2.5 modfedd o led. Gweithiodd yr RSPCA gyda'r person a ffoniodd i ryddhau'r gath – llwyddon nhw i wthio'r ffens yn ôl a dod â'r gath fach allan yn ddiogel. Yn ffodus nid oedd y gath wedi'i hanafu, felly fe'i gollyngwyd yn rhydd yn syth.

Sbotolau ar Wirfoddolwyr Anafedigion Bywyd Gwyllt

Mae Gwirfoddolwyr Anafedigion Bywyd Gwyllt yn cefnogi arolygwyr a swyddogion maes yr RSPCA trwy gasglu a chludo adar a mamaliaid bychain gwyllt sy'n sâl, wedi'u hanafu ac sy'n dioddef a, lle bo'n briodol, eu gollwng yn ôl i'r gwyllt. Yn ystod 2017, cafodd y Gwirfoddolwyr hyn eu recriwtio a'u hyfforddi ledled Cymru a Lloegr ac mae wyth ar hyn o bryd yn cynnig cymorth i swyddogion RSPCA Cymru yng ngrwpiau'r De-ddwyrain a'r De-orllewin.



Symud 'technegol iawn' ar graig enfawr tair tunnelli i achub morlo

Yn un o'r sefyllfaoedd achub mwyaf dramatig yn 2017 bu'n rhaid symud craig enfawr tair tunnelli er mwyn cael mynediad at forlo mewn trybini. Roedd y morlo bach wedi mynd yn sownd rhwng creigiau trwm a chlogfeini yn ymyl wal fôr ger gwaith dur Port Talbot. Roedd mynd ato yn eithriadol o anodd, a bu'n rhaid cynllunio'n drylwyr gan gynnwys ymgynghori manwl ag arbenigwyr peirianeg. Roedd yn rhaid symud cerrig mawr oedd yn pwyso mwy na thair tunnelli i fedru mynd at y morlo, gyda pheiriannydd wedi defnyddio craen nenbont arbenigol i godi'r creigiau. Trosglwyddwyd y morlo ar unwaith i gyfleusterau arbenigol yr RSPCA ac, yn dilyn cyfnod o adfer llwyddiannus, cafodd ei ryddhau yn ôl i'r gwyllt. Roedd nifer o asiantaethau wedi cefnogi'r RSPCA yn yr ymgyrch achub, gan gynnwys Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain, Sea-Lift Diving, British Divers' Marine Life Rescue, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Cyfrannodd cangen yr RSPCA Llys Nini, Caerdydd i Abertawe, yn garedig tuag at logi'r offer.

Atal creulondeb ac amddiffyn anifeiliaid

Lle bo angen, mae camau cyfreithiol yn dal i fod yn elfen bwysig o waith rheng flaen yr RSPCA yng Nghymru, gyda gweithgarwch erlyn yn aml yn angenrheidiol i sicrhau cyfiawnder am droseddau yn erbyn anifeiliaid. Fodd bynnag, erlyn yw'r dewis olaf i'r RSPCA. Yn ystod blwyddyn galendr 2017, rhoddwyd 6,678 o hysbysiadau lles a gwella – mae'r rhain yn offer hanfodol wrth sicrhau gwelliannau lles a gwneud yn siŵr fod pobl yn deall sut i ddarparu ar gyfer yr anifeiliaid sydd dan eu gofal. Mewn cymhariaeth, sicrhawyd 148 o euogfarnau yn 2017 gan yr RSPCA yng Nghymru, yn ymwneud â 67 o ddiffnyddion. Er mai dyma'r nifer uchaf o euogfarnau ers 2013 – sy'n pwysleisio pwysigrwydd gwaith yr RSPCA yn y maes hwn – eto treuliodd swyddogion lawer mwy o amser yn gweithio gyda pherchnogion ac yn addysgu pobl am eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau cyfreithiol tuag at anifeiliaid.

Yn anffodus, creulondeb bwriadol i anifeiliaid unwaith eto fu ymysg y gwaith erlyn anoddaf i swyddogion yr RSPCA ddelio ag ef. Roedd dicter y cyhoedd yn amlwg mewn achosion fel y ci blaidd sâl iawn oedd wedi'i guddio mewn darn o garped a'i adael i farw ar ochr y ffordd; neu'r dyn a gyfaddefodd i guro cath i farwolaeth mewn cegin gwesty. Roedd technoleg fodern unwaith eto yn ffactor wrth ganfod camdriniaeth o'r fath ac roedd un o achosion amlycaf 2017 yn ymwneud â fideo ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos merlen yn cael ei chwipio a'i chicio'n gïaid. Yn ogystal, mae achosion llys wedi cynnwys nifer o anifeiliaid, gan gynnwys cŵn, cathod, creaduriaid ffwr bychain a dofednod.

Yn 2017 ymchwiliodd RSPCA Cymru i **10,176** o gŵynion am greulondeb, gan fod yn llwyddiannus wrth weithredu **6,678** o hysbysiadau lles a gwella i atal dioddefaint i anifeiliaid.




Arogl wedi "llosgi llygaid" arolygydd wrth i gi mastiff ddioddef

Cafodd ci mastiff ei adael i ddioddef mewn amodau mor wael roedd yr arogl yn "llosgi llygaid" arolygydd yr RSPCA, yn un o'r "achosion gwaethaf o esgeulustod" roedd hi erioed wedi'i weld. Roedd y ci wedi'i atafaelu gan yr heddlu cyn dod i ofal y RSPCA, ac anafiadau echrydus arno. Yn ffodus, yn dilyn cyfnod yn adfer yng Nghanolfan Anifeiliaid Casnewydd yr RSPCA, cafodd y mastiff, a elwir yn Troy, ail gyfle i fod yn hapus ar ôl cael ei ailgartrefu'n llwyddiannus. Yn sgil ei methiant i ymchwilio i gyflwr gwael corff y ci a'r ffaith ei fod wedi colli'r fath bwysau, cafodd menyw o Gasnewydd ei gwahardd rhag cadw cŵn am gyfnod o bum mlynedd, ynghyd â chael rhyddhad amodol am dair blynedd a'i gorchymyn i dalu costau o £300 a gordal dioddefwr o £20.


Cyfanswm nifer yr euogfarnau yn – 2016

Y De-ddwyrain (35)
Y De-orllewin (68)
Y Gogledd a'r Canolbarth (17)



Cyfanswm nifer yr euogfarnau yn – 2017

Y De-ddwyrain (38)
Y De-orllewin (66)
Y Gogledd a'r Canolbarth (44)



Cath wedi'i gadael ar ei phen ei hun yn llwgu i farwolaeth

Mae arolygwyr yr RSPCA yn gallu bod yn dyst i amgylchiadau trasig wrth fynd i weld eiddo, ac un o ddelweddau mwyaf dychrynlyd y flwyddyn oedd mewn eiddo yn Aberdâr, lle bu i gath fach chwe mis oed llwgu i farwolaeth ar ôl cael ei gadael. Roedd hi wedi methu ag agor bagiau plastig bwyd cath caeedig a adawyd yn y tŷ drwy eu crafu a'u cnoi. Cafodd y gath, a elwir yn Mischa, ei gadael i farw ar ôl i'r perchennog symud allan o'r tŷ a'i gadael ar ei phen ei hun. Roedd Mischa wedi dioddef yn enbyd ac yn hollol ddiangen o ganlyniad. Cafodd ei pherchennog ddedfryd o garchar am 10 wythnos, wedi'i ohirio am 12 mis, a'i gwahardd rhag cadw unrhyw anifail am 12 mis. Rhoddwyd dirwy o £750 iddi, a gordal dioddefwr o £115.




Gallai galwad ffôn pum munud wedi arbed merlod Shetland rhag dioddef

Mae arolygwyr yr RSPCA yn delio'n rheolaidd â phroblemau lles y gellid fod wedi'u hatal pe bai perchennog yr anifail wedi cymryd camau syml i ddelio â sefyllfaoedd cyn iddynt waethygu'n gyflym. Cafodd dyn o Dreletert ddirwy ar ôl i'w weithredoedd arwain at ddiodefaint tair merlen Shetland, er y byddai galwad ffôn fer a syml i filfeddyg wedi gallu eu hatal rhag dioddef. Roedd carnau pob un o'r tair merlen Shetland wedi gordyfu'n ddifrifol, a 141kg yn unig yr oedd un ohonynt yn ei bwysu, sydd dros 100kg yn is na'i phwysau disgwyledig ar gyfartaledd. Yn ffodus, cafwyd diweddsglo hapus i'r merlod gan fod y tair ohonynt wedi'u trosglwyddo i ofal RSPCA Cymru, cyn cael eu hailgartrefu'n llwyddiannus. Cafodd y dyn ddirwy o £535, ei orchymyn i dalu costau o £300 a gordal dioddefwr o £53.


Diffynyddion wedi'u cael yn euog yn – 2016

Y De-ddwyrain (25)
Y De-orllewin (28)
Y Gogledd a'r Canolbarth (8)



Diffynyddion wedi'u cael yn euog yn – 2017

Y De-ddwyrain (19)
Y De-orllewin (28)
Y Gogledd a'r Canolbarth (20)



Paratoi at fywyd newydd

Ein blaenoriaeth yw dod o hyd i lefydd i adfer ac ailgartrefu addas sy'n gallu diwallu anghenion yr holl anifeiliaid sy'n dod i'n gofal. Daw'r rhan fwyaf o'r anifeiliaid atom drwy Arolygwyr yr RSPCA ac maent felly wedi cael dechrau anodd iawn i'w bywydau. Mae ein tîm o staff milfeddygol a gofal anifeiliaid a'n gwirfoddolwyr yn gweithio ddydd a nos i helpu'r anifeiliaid hyn i adennill ymddiriedaeth, cryfhau eu hiechyd a'u paratoi at eu cartrefi newydd. Ledled y wlad mae ein clinigau milfeddygol, canolfannau anifeiliaid, canolfan fabwysiadu, canghennau a'n Swyddog Ailgartrefu Ceffylau yn gweithio'n ddiflino i roi gofal arbenigol i baratoi ein hanifeiliaid at eu bywydau newydd.

Yn 2017, bu i ganghennau a chanolfannau anifeiliaid yr RSPCA ailgartrefu dros **2,100** o anifeiliaid.

Gofal milfeddygol

Mae gennym glinig milfeddygol pwrpasol ym Merthyr Tudful a nifer o glinigau lles wedi'u rhedeg gan ganghennau'r RSPCA, gan gynnwys clinig symudol sy'n ymweld â safleoedd ledled y Gogledd. Rydym yn ffodus hefyd ein bod yn gallu gweithio â nifer o filfeddygfeydd preifat cefnogol iawn ledled Cymru. Mae'r cyfleusterau milfeddygol hyn yn rhoi triniaeth frys a gofal parhaus i anifeiliaid sâl neu wedi'u hanafu sydd wedi'u hachub gan arolygwyr yr RSPCA ac i anifeiliaid anwes mewn angen sydd â pherchnogion cymwys.

Yn 2017 rhoddodd clinig Merthyr Tudful a changhennau'r RSPCA yng Nghymru fwy na 16,000 o driniaethau lles i anifeiliaid mewn angen.



Adfer ac ailgartrefu

Ar ôl derbyn unrhyw driniaeth filfeddygol brys sydd eu hangen arnynt, mae llawer o anifeiliaid wedyn angen lle diogel i wella a pharatoi at eu bywyd newydd.

Mae gan yr RSPCA bedair o ganolfannau anifeiliaid yng Nghymru, sef Bryn-y-Maen, Llys Nini, Casnewydd a chanolfan fabwysiadu wedi'i lleoli yn Pets At Home yng Nghasnewydd. Mae gan staff yn y canolfannau hyn arbenigedd ym maes lles ac ymddygiad er mwyn diwallu anghenion penodol anifeiliaid wedi'u hachub.

Mae rhwydwaith o 13 o ganghennau'r RSPCA ledled Cymru yn cynnig ystod eang o wasanaethau lles anifeiliaid, gan gynnwys: cymorth lles ariannol i anifeiliaid anwes; gwasanaethau milfeddygol wedi'u sybsideiddio; cynlluniau ysbaddu a gosod microsglodyn; a chanfod cartrefi i anifeiliaid mewn angen. Mae pob cangen yn gweithredu'n lleol ac yn elusennau sydd wedi'u cofrestru ar wahân i'r RSPCA. I gael manylion am eich cangen leol gweler: www.rspca.org.uk/whatwedo/yourlocal



Ceffylau

Daeth 72 o geffylau, asynnod a merlod ledled Cymru i'n gofal yn 2017, a hynny oherwydd rhesymau gwahanol megis anafiadau o benffrwyau, newyn, clwyfau heb eu trin, neu berchnogaeth anghyfrifol.

Mae'n aml yn cymryd cyfnod hir o ofal arbenigol i baratoi'r ceffylau hyn sydd wedi'u cam-drin ar gyfer eu cartrefi newydd, yn enwedig gan fod llawer yn dod atom ar fin bwrw ebol neu eisoes gydag ebolion ifanc.

Mae ein gofalfwyr ceffylau arbenigol yn helpu i adfer eu hiechyd ac adennill eu hymddiriedaeth cyn eu paru â'r cartrefi newydd gorau er mwyn sicrhau nad ydynt byth yn gorfod dioddef esgeulustod a chreulondeb eto.

Cymorth lles yn y gymuned

Yn ogystal ag adfer ac ailgartrefu anifeiliaid y mae arolygwyr yr RSPCA wedi eu trosglwyddo i ni, rydym eisieu helpu i atal rhagor o anifeiliaid rhag gorfod dod i'n gofal o gwbl.

Un o'r ffyrdd yr aethom ati i gyflawni hyn yn 2017 oedd drwy brosiect Ysbaddu a Microsglodynnu Cathod Cymru. Roedd hwn yn brosiect ar y cyd rhwng canghennau'r RSPCA yng Nghymru, yr RSPCA a Cats Protection. Ymunodd mwy na 140 o filfeddygon ledled Cymru yn y cynllun a gall perchnogion sy'n gymwys gael eu cath wedi'i hysbaddu a gosod microsglodyn arni am £5 yn unig. Cafwyd ymateb rhagorol i'r cynllun drwy gydol 2017 gyda mwy na 7,700 o gathod yn elwa o'r cynnig.



Llefydd brys

Nid ydym byth yn gwybod pryd y bydd anifeiliaid yn dod i'n gofal ac weithiau bydd brys annisgwyl i symud anifeiliaid o amodau ofnadwy. Yn y sefyllfaoedd hyn, rydym weithiau'n gorfod defnyddio llety argyfwng hyd nes y gallwn ddod o hyd i lefydd iddynt adfer cyn cael cartref parhaol. Yn 2017 cydweithiodd canghennau'r RSPCA yng Nghymru i ddarparu mwy na 7,000 o ddiwrnodau o lety brys i anifeiliaid mewn angen.

Mae eich cymorth yn gwneud gwahaniaeth mawr

Mae aelodau'r cyhoedd ledled Cymru yn cefnogi ein canghennau a'n canolfannau anifeiliaid trwy wirfoddoli eu hamser neu drwy roi arian neu eitemau mawr eu hangen i ni. Yn 2017 cawsom gefnogaeth anhygoel.

Er enghraifft, roedd gwirfoddolwyr wedi helpu i fynd â chŵn am dro, yn cymdeithasu â chathod ac anifeiliaid bychain eraill, ac yn helpu â thasgau hanfodol gweinyddu, cynnal a chadw a chodi arian.

Mae ein canolfannau hefyd wedi derbyn rhoddion hael o flancedi, bwyd ac eitemau cyfoethogi, sy'n helpu i gadw'r anifeiliaid yn gynnes, yn ddiogel ac wedi'u difyrnu.



Enghraifft wych o'r gwahaniaeth mawr y gall eich cefnogaeth ei wneud oedd y prosiect adeiladu ysgubor hyfforddi newydd yng Nghanolfan Anifeiliaid Bryn-y-maen y llynedd. Cafodd y cyfleuster hwn ei ariannu'n llawn gan grŵp Cyfeillion Bryn-y-Maen. Mae'r Grŵp yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau codi arian trwy gydol y flwyddyn ac yn defnyddio rhoddion i helpu i wneud gwelliannau i'r ganolfan.

Bydd yr ysgubor hyfforddi yn lleoliad cynnes, dan do a mawr ei angen i ddarparu fabwysiadwyr ddod i gwrdd â chŵn, i gynnal digwyddiadau addysgol a chodi arian, ac i roi hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i gŵn mabwysiedig a'u perchnogion newydd.

Un o'r anifeiliaid a ailgartrefwyd gan yr RSPCA yn 2017 oedd cath fach a achubwyd gan RSPCA Cymru ar ôl cael ei gollwng o'r awyr gan wylan. Roedd y gath fach tua phedair wythnos oed pan gasglwyd hi o wersyll gwyliau yn y Rhyl. Gwelodd aelod o'r cyhoedd y gath fach yn cael ei chodi gan wylan, cyn cael ei gollwng i'r ddaear. Credir ei bod wedi dod o nythfa o gathod gwyllt sy'n byw ger y parc gwyliau. Yn ffodus, nid oedd wedi cael anaf ac ar ôl treulio amser yn adfer gyda gofalfwr maeth yr RSPCA, daeth Canolfan Anifeiliaid Bryn-y-Maen yr RSPCA ym Mae Colwyn Uchaf o hyd i gartref newydd cariadus iddi ac ail gyfle i gael hapusrwydd.

Addysg i atal

Mae tim addysg yr RSPCA o'r farn ei bod yn ddyletswydd ar yr RSPCA i ganolbwyntio cymaint ar atal creulondeb ag y mae ar ddelio â chanlyniadau heriol creulondeb. Mae addysg yn allweddol i helpu pobl i ddeall anghenion anifeiliaid, dysgu eu bod yn fodau ymdeimladol a bod gennym ni oll gyfrifoldeb tuag at yr holl anifeiliaid yn ein cymdeithas. Os ydym yn addysgu ac yn cefnogi pobl sydd angen ein help, gallwn helpu miliynau o anifeiliaid fyw bywyd heb orfod dioddef.

Mae gan yr hyfforddiant athrawon yr ydym wedi'i wneud eleni y potensial i gyrraedd **42,000** o ddisgyblion⁵.

Gofalwyr maeth

Yn 2017, gweithiom ochr yn ochr â gofalwyr maeth sy'n cefnogi plant sy'n arddangos ymddygiad pryderus tuag at anifeiliaid neu a allai fod mewn perygl o fod yn greulon i anifeiliaid. Awgryma ymchwil fod plant sydd wedi bod yn dyst neu wedi dioddef trais yn y cartref yn 6 i 9 gwaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn digwyddiad yn ymwneud â chreulondeb i anifeiliaid.⁴ Rydym wedi bod yn helpu gofalwyr cefnogi i ddeall sut i ddelio ag ymddygiadau o'r fath.

Mae llawer o blant yn y system maethu angen cryn dipyn o gymorth i ddatblygu sgiliau empathi tuag at bobl ac anifeiliaid oherwydd eu profiadau yn y gorffennol. Ein nod yw mynd i'r afael â hyn er mwyn addysgu plant i ryngweithio'n briodol ac yn ddiogel gydag anifeiliaid. Rydym nawr wedi partneru â'r Rhwydwaith Maethu ac yn rheolaidd yn mynychu cyfarfodydd cyngori gofalwyr maeth i hyrwyddo ein gwaith ac i gefnogi'r rheiny sydd eisiau cymorth.



Hyfforddi athrawon

Mae addysgu cenhedlaeth y dyfodol wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn cynnig gweithdai rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i athrawon er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r 5 angen lles sydd gan anifeiliaid ac i ddatblygu dealltwriaeth bellach ynghylch ymdeimladoldeb a'r hyn y mae'n ei olygu i anifeiliaid sy'n dioddef.

Yn 2017, mynychodd 70 o athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru un o'n cyrsiau hyfforddi. Nod y sesiynau hyn yw helpu i ddatblygu pobl ifanc yn ddinasyddion y dyfodol sy'n drugarog a gofalgwr a chynnig syniadau ymarferol i athrawon ynghylch sut i ymgorffori negeseuon lles anifeiliaid yn eu haddysgu yn y dosbarth o ddydd i ddydd. Dangosir y gweithgareddau sydd ar wefan Addysg RSPCA, sef llun o adnoddau sy'n gysylltiedig â phob maes y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys Gwyddoniaeth, ABCh a Dinasyddiaeth. Ceir ymateb da i'r sesiynau bob tro a chynigir cymorth parhaus i'r rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu dinasyddion gwybodus, cyfrifol ac egniol.

Mae'r gwaith a wnawn yn y sector Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ac mewn ysgolion yn rhan o'r strategaeth addysg sydd am sicrhau y caiff negeseuon pwysig eu cyfleu, megis cyfrifoldebau pobl i ddiwallu anghenion anifeiliaid, a bod hyn yn parhau i gael ei drosglwyddo i blant mewn ysgolion. Mae ein strategaeth hyfforddi athrawon yn ein galluogi i gyrraedd nifer o blant trwy luosyddion – mae pob athro/athrawes yn mynd â'u gwybodaeth newydd i'w hysgol gynradd, gan weithio gyda 30 o blant newydd bob blwyddyn, yn ogystal ag yn rhwngol gwybodaeth newydd am yr RSPCA a lles anifeiliaid i'w cydweithwyr.





Lles Anifeiliaid: Y Ddadl Fawr

Mae'r Ddadl Fawr wedi'i chynnal yn llwyddiannus yng Nghymru ers 2015. Daeth chwe ysgol i gymryd rhan a phob un â'u tîm eu hunain o ddisgyblion rhwng 11 a 14 oed i drafod materion lles anifeiliaid megis 'Pwy sy'n gyfrifol am les anifeiliaid?'. Dadleuodd disgyblion o blaid ac yn erbyn cyfrifoldebau milfeddygon, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, yr RSPCA, y cyhoedd a'r heddlu. Cyflwynwyd pedair gwobr arbennig i fyfyrwyr: sef Hyrwyddwr Lles Anifeiliaid, Gwleidydd y Dyfodol, Ymgrychudd y Dyfodol a Newyddiadurwr y Dyfodol.

Ar ôl y ddadl, aethpwyd â'r disgyblion ar daith o gwmpas y Senedd i weld drostynt eu hunain ymhle mae'r cyfreithiau sy'n effeithio ar les anifeiliaid yn cael eu llunio ar hyn o bryd. Yna cawsant gyfle i wneud cwis rhyngweithiol dan arweiniad DJ Matt Lissack, sydd ar y radio amser brecwast, a chyfle hefyd i ofyn cwestiynau i uwch filfeddyg yn Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru.

Rydym yn edrych ymlaen at ehangu'r cynllun yn 2018 i gynnwys rowndiau rhanbarthol.

⁴ Nodyn Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg (2010): 'Pets, Families and Interagency Working', Ionawr 2010, Rhif 350. Ar gael yn: www.parliament.uk/documents/post/postpn350.pdf.

⁵ Cyfrifiad sy'n seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd pob athro/athrawes yn addysgu 30 o ddisgyblion y flwyddyn dros yrfa o 20 mlynedd.

Rhoi llais i anifeiliaid yn 2017

Drwy gydol 2017, dathlodd RSPCA Cymru yr hyn y mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 wedi'i gyflawni yn y 10 mlynedd ers dod i rym yng Nghymru, yn ogystal ag edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau y caiff cefnogwyr RSPCA eu clywed a bod lles pob anifail yn cael ei sicrhau, a'i wella, gan lywodraeth ar bob lefel yng Nghymru. Mae RSPCA Cymru yn parhau i ymgychu ar y materion pwysicaf, yn enwedig wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeidd a sicrhau borgen well i anifeiliaid fferm mewn polisi amaethyddol diwygiedig i Gymru.

Gwnaed mwy na **36,000** o weithredodd yn 2017 gan ein cefnogwyr eisiau gwneud gwahaniaeth i les anifeiliaid.



Ymgychu

Yn ystod 2017 cafwyd mwy na 36,000 o weithredodd cefnogi lles anifeiliaid gan bobl Cymru. Yn sgil cyflwyno Bil Ymadael yr UE gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, cynhaliom ymgych i sicrhau y diogelir ymdeimladoldeb anifeiliaid, a gydnabyddir ar hyn o bryd gan gyfraith yr UE, ar ôl Brexit ac fe gafodd yr ymgych hon ei chlywed yn glir gan weidyddion yn San Steffan a Chaerdydd.

Boed yn Pride Cymru, yn y Sioe Frenhinol neu yn ffeiriau'r glasfyrwyr a stondinau stryd yn y gymuned ar hyd a lled y wlad, mae 2017 hefyd wedi ein cael yn siarad â nifer uwch nag erioed o gefnogwyr ledled Cymru. Ar frig ymwybyddiaeth y cyhoedd oedd ein hymgyrchoedd i lysoedd fod yn llymach ar y bobl hynny sy'n cyflawni'r troseddau gwaethaf o greulondeb yn erbyn anifeiliaid a'r galw i gyflwyno Cofrestr Troseddwy'r Anifeiliaid i'r rheiny sydd eisoes wedi'u gwahardd gan y llysoedd rhag cadw anifeiliaid.

Yn ogystal â gweithio'n ddiflino i newid cyfreithiau'r wlad i ddiogelu lles anifeiliaid yn well, rydym hefyd wedi bod â rhan flaenllaw yn newid ymddygiad y cyhoedd drwy'r fenter newydd 'Anifeiliaid, y Tir a Chithau' gan gydweithio â llawer o sefydliadau lles anifeiliaid blaenllaw eraill yng Nghymru. Mae'r cynllun arloesol hwn yn esiampl o'r math o weithio mewn partneriaeth yr ydym wedi'i hyrwyddo ers cryn amser, ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i wneud hynny yn 2018.

Gwobrau Ôl-traed Lles Anifeiliaid Cymunedol (CAWF) 2017

ARLOESWYR

Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Enillydd
Heddlu Gogledd Cymru – Canmoliaeth Uchel

AUR

Cyngor Sir Fynwy – Aur (Cynlluniau Wrth Gefn)
Cartref Cŵn Caerdydd (Cyngor Caerdydd) – Aur (Cŵn Strae)
Cyngor Sir Ddinbych – Aur (Cŵn Strae)
Cyngor Dinas Casnewydd – Aur (Cŵn Strae)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Aur (Cŵn Strae)

ARIAN

Cyngor Sir Penfro – Arian (Cŵn Strae)
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Arian (Cŵn Strae)

EFYDD

Cyngor Sir Ddinbych – Efydd (Trwyddedu Sefydliadau Anifeiliaid)
Cyngor Sir Penfro – Efydd (Trwyddedu Sefydliadau Anifeiliaid)
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Efydd (Trwyddedu Sefydliadau Anifeiliaid)
Cyngor Dinas Caerdydd – Efydd (Cynlluniau Wrth Gefn)
Cartrefi Cymunedol Gwynedd – Efydd (Tai)
Cymdeithas Tai Clwyd Alyn – Efydd (Tai)
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful – Efydd (Tai)
Cartrefi Cymoedd Merthyr – Efydd (Tai)
Cymdeithas Tai Newydd – Efydd (Tai)
Cymdeithas Tai Rhondda – Efydd (Tai)
Cyngor Sir Ynys Môn – Efydd (Cŵn Strae)



Yn 2017 dyfarnwyd y nifer uchaf o wobrau erioed yng Nghymru, gyda 14 o gynghorau a chymdeithasau tai yn ennill 18 gwobr i sicrhau safonau lles uwch mewn trwyddedu sefydliadau anifeiliaid, cynllunio wrth gefn, tai a chŵn strae. Cyflwynwyd y gwobrau gan Lesley Griffiths AC, sef Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, mewn seremoni yn y Senedd ac yno cyhoeddwyd mai'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS) oedd enillydd gwobr Arloeswr Cymru, a Heddlu Gogledd Cymru yn cael canmoliaeth uchel yn yr un categori. Gellir gweld meini prawf gwobrau CAWF yn: www.PoliticalAnimal.org.uk/CAWFHome

Gweithio dros newid

Fel rhan o'r ymgyrch i gael Cofrestr Troseddwy'r Anifeiliaid, cyflwynodd RSPCA Cymru adroddiad i Lywodraeth Cymru yn galw am gyflwyno Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i RSPCA Cymru gadeirio'r Grŵp i edrych ar y mater, gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant anifeiliaid anwes, elusennau ailgartrefu a llywodraeth leol. Cynhaliodd y Grŵp ymgynghoriad rhanddeiliaid ar ddiwedd 2017 a disgwyliar iddo gyflwyno adroddiad i'r Llywodraeth yn ystod 2018.

Ar draws 2017 gwnaed camau mawr mewn dwy ymgyrch arall yr RSPCA. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch a ddylai arddangosfeydd symudol o anifeiliaid – gan gynnwys syrcau – gael eu cofrestru neu eu trwyddedu'n swyddogol. Ymatebodd RSPCA Cymru fod angen i arddangosfeydd o'r fath gael eu trwyddedu ac y byddai unrhyw gynllun trwyddedu yn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau oherwydd na ellir diwallu eu hanghenion lles. Ers 2014 mae RSPCA Cymru wedi bod yn ymgyrchu i wahardd rhyddhau llusernau awyr o dir cynghorau ac erbyn y llynedd llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau bod 21 o'r 22 awdurdod lleol wedi'u gwahardd.

Mae RSPCA Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, yn enwedig ar fridio cŵn yn anghyfreithlon a chyflwyno Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus (PSPo) ar gyfer rheoli cŵn.

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017, lluniwyd rhifyn arbennig o'r cylchlythyr Rhowch Lais i Anifeiliaid yn benodol i gynghorwyr lleol a oedd yn cynnwys gwybodaeth i'w helpu i annog perchnogaeth gyfrifol ar anifeiliaid anwes a diogelwch anifeiliaid yn eu cymunedau.

Yn sgil gwaith a wnaed gan yr RSPCA fel rhan o Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNw), agorodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriadau ar Godau Ymarfer diwygiedig ar gyfer Cŵn a Cheffylau. Codwyd pryderon ynghylch cadw primatiaid ac anifeiliaid ecsotig eraill fel anifeiliaid anwes gan yr RSPCA i Lywodraeth Cymru, a hynny wedi codi hefyd pan ofynnodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd i RSPCA Cymru am dystiolaeth ar wahardd gwerthu anifeiliaid ecsotig fel anifeiliaid anwes yng Nghymru.

Parhaodd RSPCA Cymru i ymateb i ystod o ymgynghoriadau yn 2017 gan gynnwys adroddiad Senedd Cymru ar '1,000 diwrnod cyntaf' bywyd plentyn, a'r RSPCA wedi hyrwyddo 'Chwe Rheol Aur' y Gymdeithas i sicrhau diogelwch anifeiliaid a phlant pan fydd plentyn newydd yn dod i'r cartref. Rhoddodd RSPCA Cymru dystiolaeth hefyd ar adolygiad y Llywodraeth o Ddeddf Rheoli Ceffylau 2014 ac ar gynigion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol Cymru yn ymwneud â defnyddio maglau a chŵn yn poenyddio da byw.

Cyfathrebu'r materion allweddol

Mae cyfathrebu â'r cyhoedd yn hollbwysig i hyrwyddo negeseuon allweddol am les anifeiliaid ac i roi gwybod am y gwaith unigryw y mae'r RSPCA yn ei wneud ledled y wlad, ac mae'n dod yn fwyfwy pwysig yn yr oes fodern sydd ohoni.

Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i bobl ym mhob cwr o Gymru; ac mae straeon sy'n ymwneud ag anifeiliaid anwes, anifeiliaid fferm, bywyd gwyllt a phynciau lles anifeiliaid eraill i'w cael yn aml mewn print, ar-lein a ledled y byd darlledu.

I'r perwyl hwn, unwaith eto yn 2017 cafodd llawer o waith y Gymdeithas yng Nghymru ei arddangos drwy'r cyfryngau, yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae RSPCA Cymru yn falch iawn o'i pherthynas agos â'r cyfryngau, ac yn coleddu ei chysylltiad â chefnogwyr trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol, a'r ddau fodd wedi bod yn hollbwysig unwaith eto wrth hyrwyddo achos lles anifeiliaid dros y flwyddyn galendr ddiwethaf.

Y cyfryngau cymdeithasol

Trwy gydol 2017, tyfodd sianeli cyfryngau cymdeithasol RSPCA Cymru a chynyddodd ymgysylltiad y mudiad drwyddt mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen. Mae dulliau o'r fath yn rhoi llwybr hynod o bwysig i hyrwyddo apeliadau am wybodaeth, rhannu cyngor am les anifeiliaid a sôn am y gwaith y mae'r RSPCA yn ei wneud. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig ffordd o gysylltu'n uniongyrchol â'r byd ehangach ac maent wedi helpu'r RSPCA i ganfod perchnogion anifeiliaid, a dod o hyd i wybodaeth allweddol mewn ymchwiliadau i les anifeiliaid. Facebook yn dal yw'r cyfrwng mwyaf poblogaidd, gyda'r nifer sy'n 'hoffi' tudalen RSPCA Cymru wedi codi o 7,355 i 10,659 yn ystod y flwyddyn, sef twf o 44.9 y cant. Bydd RSPCA Cymru yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn drwy gydol 2018, gan gynnwys trwy gyfrif Instagram.

Sylw yn y wasg

Arddangoswyd gwaith RSPCA Cymru trwy 250 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg yn ystod 2017, tra bod cannoedd o ddatganiadau a negeseuon adweithiol hefyd wedi'u hanfon i swyddfeydd newyddion y cyfryngau. Yn ôl dadansoddiad annibynnol cafwyd twf cyflym yn nifer y cyfeiriadau yn y cyfryngau at yr RSPCA yng Nghymru dros y flwyddyn, gan gofnodi 747 o gyfeiriadau at RSPCA Cymru neu'r RSPCA yng Nghymru yn 2017, sef cynnydd o 12.7 y cant. Fodd bynnag, mae'n debygol bod modfeddi'r sylw a gafodd yr elusen hyd yn oed yn uwch. Roedd sylw gan y wasg ysgrifenedig wedi ymestyn ar draws pob llwyfan, o swyddfeydd lleol, i rai megis *WalesOnline*, *BBC News* ac *ITV News*, i gyhoeddiadau ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys *The Daily Telegraph*, *The Daily Mail* a'r *Daily Mirror*, a swyddfeydd newyddion rhyngwladol megis *AOL News*, *MSN News*, *Yahoo News*.

Cafodd gwaith RSPCA Cymru **747** sylw yn y cyfryngau yn 2017 – cynnydd o fwy na 13 y cant⁶.



MailOnline

Stranded pony saved from 'certain death' after 13 RSPCA officers haul it up 80ft cliff

BBC

'Flushed away' snake rescued from Caernarfon sewerage plant



EXPRESS

**Best animal rescue EVER?
Incredible military-style
operation to save stranded seal**

Y byd darlledu

Cafwyd cryn sylw ar y teledu hefyd yn ystod 2017, gyda'r flwyddyn yn dechrau â darlledu rhaglen ddogfen S4C *Llys Nini*, yn edrych ar waith cangen leol ac arolygiaeth yr RSPCA yn y De-orllewin. Yn 2017 bu tîm *Week In, Week Out* y BBC yn llwyddiannus wrth ennill cydnabyddiaeth yn natliad Anrhyddedau blynyddol yr RSPCA am eu rhaglen ddogfen yn edrych ar yr angen i reoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid. Rhoddwyd cyfweiliadau yn rheolaidd i'r sianeli mawr ar y teledu a'r radio.



"A Puppy's Journey" – adroddiad rhyngweithiol

Ym mis Rhagfyr, lansiodd RSPCA Cymru adroddiad rhyngweithiol yn sôn am hanes ci bach corhelgi o'r enw Hugo a achubwyd rhag cael ei smyglo yn anghyfreithlon trwy Borthladd Caerdybi. Dangosodd yr adroddiad yr amodau ofnadwy y mae cŵn bach sy'n rhan o'r fasnach gwerthu anghyfreithlon yn eu hwynebu. Mae'r adroddiad yn cynnwys ffilmiau, ffotograffau a thystiolaeth unigolion, ac mae'n dilyn ymgyrch amlasiantaethol dan arweiniad yr RSPCA pan achubwyd 96 o gŵn bach yn oriau mân y bore ym mhorthladd Caerdybi. Cydweithiodd yr RSPCA â nifer o asiantaethau i gynnal yr ymgyrch, gan gynnwys: Llu'r Ffiniau, Cyngor Sir Ynys Môn, y DSPCA, yr ISPCA, milfeddygon, yr heddlu, Tollau Tramor a Chartref EM (HMRC), Llywodraeth Cymru, APHA ac asiantaethau eraill i dargedu masnachwyr cŵn bach anghyfreithlon – rhoesant oll gefnogaeth i'r adroddiad. Cafodd y cyhoeddiad hwn ei roi ar restr fer gwobr gan Shorthand, sef llwyfan adrodd stori weledol a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad unigryw. Gellir gweld yr adroddiad yn:

rspca.org.uk/puppytrafficking



⁶ Canfuwyd y data drwy ddefnyddio cronfa ddata Meltwater i chwilio am erthyglau ar-lein gan gyfryngau amrywiol, a oedd yn cyfeirio at RSPCA Cymru neu'r RSPCA yng Nghymru rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2016.

Helpwch Ni a Dewch yn Rhan

RHOWCH YN HAEI

Gallwch ein cefnogi drwy roi rhodd gyson drwy ddebyd uniongyrchol. Mae hyn yn golygu y gallwn ddibynnu ar eich cefnogaeth a chynllunio yn fwy effeithiol, ewch i: www.rspca.org.uk/donate a gweld pam fod pob ceiniog yn cyfrif.

Os hoffech helpu'r RSPCA, gallwch roi £3 nawr drwy yrru neges yn dweud HELP i 78866 (mae negeseuon yn costio £3 + pris arferol gyrru neges ar eich rhwydwaith).

Dewch yn Noddwr yr RSPCA, ewch i: www.rspca.org.uk/sponsor

Os ydych yn talu trethi yn y Deyrnas Unedig, drwy lenwi datganiad Cymorth Rhodd byddwch yn cynyddu eich rhodd 25 y cant ar ddim cost ychwanegol i chi. Ewch i: www.rspca.org.uk/getinvolved/donate/advice/giftaid i gael rhagor o wybodaeth.

GADEWCH RODD I NI YN EICH EWYLLYS

A wyddech chi fod mwy na 50 y cant o'n gwaith yn amddiffyn anifeiliaid bregus yn cael ei ariannu gan roddion y mae pobl yn garedig iawn wedi'u gadael i ni yn eu hewyllys? Mae'r haelioni o adael rhodd yn eich ewyllys yn golygu y byddwch yn helpu i amddiffyn anifeiliaid rhag creulondeb am gyfnod hir i'r dyfodol. Cysylltwch â'n Tîm Cymynrodd ar: 0300 123 0239 i ofyn am gael copi am ddim o'r Canllaw Ewyllys, neu ewch i: www.rspca.org.uk/giftsinwills

CYMERWCH RAN MEWN DIGWYDDIAD AC/NEU GWNEWCH RYWBETH EICH HUN

Boed chi am drefnu bore coffi neu ddringo Kilimanjaro, gallwn eich cefnogi. Dylai codi arian fod yn hwyl – beth am ofyn i'ch cyflogwr gyfateb faint bynnag rydych yn ei godi neu hyd yn oed roi rhodd i chi? Cofiwch, nid oes raid i chi gymryd rhan mewn digwyddiad i godi arian i ni, gallwch fanteisio ar rywbeth sy'n bodoli eisoes – a yw eich tafarn leol eisoes yn cynnal cwis? A fyddant yn fodlon rhoi'r derbyniadau neu elw i chi? Gofynnwch i'ch Clwb Rotari, Merched y Wawr neu Glwb Llewol lleol i annog eu haelodau i gymryd rhan mewn digwyddiad ar ein rhan. I gael rhagor o wybodaeth am ein digwyddiadau a syniadau codi arian, gyrrwch e-bost atom i: fundraisers-support@rspca.org.uk

GWNEWCH RYWBETH

Rhowch gartref neu maethwch anifail o un o'n canolfannau neu ganghennau, ewch i: www.rspca.org.uk/findapet

Gwirfoddolwch i ni, ewch i: www.rspca.org.uk/volunteer i weld rhai o'r cyfleoedd yr ydym yn recriwtio iddynt ar hyn o bryd. Rydym yn chwilio yn benodol am Siaradwyr Gwirfoddol i fynd i ysgolion: www.rspca.org.uk/volunteerspeaker – gweler y dudalen hon am ragor o fanylion.

YN EICH ARDAL

Mae canghennau lleol yr RSPCA wedi'u rhedeg gan ymddiriedolaethau gwirfoddol sy'n dylanwadu ar sut rydym yn gofalu am anifeiliaid ac yn atal creulondeb iddynt yn lleol. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch dod yn ymddiriedolwr cangen i'w chael yn: www.rspca.org.uk/branchtrustee

Edrychwch beth rydym yn ei wneud yng Nghymru: www.rspca.cymru

GWARIWCH A CHYNILWCH

Prynwch yswiriant anifeiliaid anwes MORE THAN – rydym yn cael rhodd am bob polisi sy'n cael ei werthu, ewch i: www.rspca.org.uk/petinsurance

Gwnewch gais am gerdyn credyd yr RSPCA, ewch i: www.rspca.org.uk/creditcard

Chwiliwch am label lles uwch RSPCA Assured ar gynnyrch bwyd wrth siopa a bwyta allan, ewch i: www.rspcaassured.org.uk/where-to-buy/map i weld ble i siopa.

Archebwch wyliau bwthyn a byddwn yn cael 10 y cant o'r archeb, ewch i: www.chooseacottage.co.uk/rca neu ffoniwch: 0345 268 8714.

BYDDWCH YN GYMDEITHASOL

Dilynwch ni ar Facebook: www.facebook.com/RSPCAcymru

Dilynwch ni ar Twitter: [@RSPCAcymru](https://twitter.com/RSPCAcymru)

Dilynwch ni ar Instagram: [@RSPCA_cymru](https://www.instagram.com/RSPCA_cymru)

Gwylwch ein ffilmiau ar: www.youtube.com/RSPCAcymru

Mae eich rhoddion hael mewn amser, arian a chymorth yn golygu y gallwn gynllunio ymlaen llaw ac ystyried yn fanwl y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau er lles anifeiliaid.

CHWARAEWCH

Chwaraewch Loteri Wythnosol yr RSPCA a chodi arian i anifeiliaid ar yr un pryd, ewch i: www.rspca.org.uk/lottery

YMGYRCHWCH DROSOM

Rydym yn ymgyrchu i wneud y byd yn lle gwell i anifeiliaid. Gwnewch ryw beth a helpwch ni drwy fynd i: www.rspca.cymru/campaigns

EWCH YN WYRDD

Ewch ag unrhyw nwyddau nad ydych eu heisiau i un o 300+ o siopau elusen yr RSPCA, ewch i: www.rspca.org.uk/inyourarea i gael hyd i'ch siop agosaf.

Gallwch ailgylchu cetrin inc drosom. Ffoniwch 0800 091 0696 neu ewch i: www.therecyclingfactory.com/rspca

Ailgylchwch gemwaith wedi torri ac nad ydych eu heisiau, papurau arian y wlad hon neu dramor, stampiau, ffonau symudol a theclynnau. Ffoniwch: 0800 633 5323 neu ewch i: www.recyclingforgoodcauses.org/rspca

YMUNWCH Â NI

I ymuno â'r RSPCA, ewch i: www.rspca.org.uk/joinus

Mae tanysgrifiad i'r cylchgrawn *Animal Action* yn ddelfrydol i bobl ifanc o dan 12 oed. Ewch i: www.rspca.org.uk/subscribe neu i bobl ifanc yn eu harddegau tanysgrifiwch i'r cylchgrawn *Animal Life*: www.rspca.org.uk/whatwedo/latest/publications/print

Mae Gwobrau Ffotograffwyr Ifanc yr RSPCA yn agored i unrhyw un sy'n 18 oed neu'n iau. Nod y gystadleuaeth yw annog diddordeb pobl ifanc mewn ffotograffiaeth ynghyd â'u gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o'r anifeiliaid o'u cwmpas. Ewch i: www.rspca.org.uk/ypa i weld lluniau enillwyr y gorffennol a sut i ymgeisio yn 2018.

BWYDWCH EICH ANIFEILIAID ANWES

Prynwch fwyd anifeiliaid anwes yr RSPCA i'ch cathod, cŵn, moch cwta a chwingod – mae'r bwyd hwn wedi'i gynllunio gan arbenigwyr. Mae'r bwyd i gathod a chŵn yn 'gyflawn', sy'n golygu eu bod yn cynnwys popeth sydd ei angen ar eich anifeiliaid anwes i'w cadw'n iach. Ewch i: shop.rspca.org.uk



Llun y clawr: RSPCA Cymru

Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid
6, Cae Gwyrdd, Parc Busnes Greenmeadow Spring, Caerdydd CF15 7AB
0300 1234 999 www.rspca.cymru www.politicalanimal.wales

 facebook.com/RSPCAcymru  [@RSPCAcymru](https://twitter.com/RSPCAcymru)
 youtube.com/RSPCAcymru  [@RSPCA_cymru](https://www.instagram.com/RSPCA_cymru)

Mae'r RSPCA yn helpu anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Elusen gofrestredig rhif: 219099.
Drwy roddion y cyhoedd yn unig y mae'r RSPCA yn bodoli.

Hawlfraint ©2018 RSPCA. Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu na defnyddio'r deunydd hwn mewn unrhyw fodd o gwbl heb ganiatâd ysgrifenedig penodol yr RSPCA i wneud hynny.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i ailgylchu 100% yn defnyddio prosesau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.